

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2008 No. 3143**

**Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008**

**RHAN 4**

Y gofynion ar gyfer cynydau

**Cynllunio'r modd y mae gwartaith nitrogen yn cael ei daenu**

**14.**—(1) Rhaid i feddiannydd daliad sy'n bwriadu taenu gwartaith nitrogen—

- (a) cyfrifo faint o nitrogen yn y pridd sy'n debyg o fod ar gael i'w amsugno gan y cnwd yn ystod y tymor tyfu (“y cyflenwad nitrogen yn y pridd”);
- (b) cyfrifo'r maint gorau posibl o nitrogen y dylid ei daenu ar y cnwd, gan gymryd i ystyriaeth faint o nitrogen sydd ar gael o'r cyflenwad nitrogen yn y pridd; ac
- (c) llunio cynllun ar gyfer taenu gwartaith nitrogen ar gyfer y tymor tyfu hwnnw.

(2) Yn achos unrhyw gnwd nad yw'n laswelltir parhaol, rhaid i'r meddiannydd wneud hyn cyn taenu unrhyw wrtaith nitrogen am y tro cyntaf er mwyn ffrwythlonni cnwd sydd wedi'i blannu neu y bwriedir ei blannu.

(3) Yn achos glaswelltir parhaol, rhaid i'r meddiannydd wneud hyn bob blwyddyn gan ddechrau ar 1 Ionawr cyn taenu gwartaith nitrogen am y tro cyntaf.

(4) Rhaid i'r cynllun fod ar ffurf barhaol.

(5) Rhaid i'r cynllun gofnodi—

- (a) cyfeirnod neu enw'r cae perthnasol;
- (b) y rhan o'r cae a blannwyd neu y bwriedir ei phlannu; ac
- (c) y math o gnwd.

(6) Yn achos y rhan a blannwyd neu y bwriedir ei phlannu, rhaid i'r cynllun gofnodi—

- (a) y math o bridd;
- (b) y cnwd blaenorol (os glaswellt oedd y cnwd blaenorol, a oedd yn cael ei reoli drwy ei dorri neu ei bori);
- (c) y cyflenwad nitrogen yn y pridd wedi'i gyfrifo'n unol â pharagraff (1) a'r dull a ddefnyddiwyd i gadarnhau'r ffigur hwn;
- (ch) y mis y rhagwelir y caiff y cnwd ei blannu;
- (d) y cynnyrch a ragwelir (os yw'n gnwd â'r); ac
- (dd) y maint gorau posibl o nitrogen y dylid ei daenu ar y cnwd, gan gymryd i ystyriaeth faint o nitrogen sydd ar gael o'r cyflenwad nitrogen yn y pridd.

**Yr wybodaeth ychwanegol sydd i'w chofnodi yn ystod y flwyddyn**

**15.**—(1) Cyn taenu tail organig, rhaid i'r meddiannydd gyfrifo bob tro faint o nitrogen o'r tail hwnnw sy'n debyg o fod ar gael i'r cnwd ei amsugno yn y tymor tyfu y caiff ei daenu ynddo.

- (2) Rhaid i'r meddiannydd, cyn taenu'r tail organig, gofnodi—
- (a) y rhan y taenir y tail organig arni;
  - (b) faint o dail organig sydd i'w daenu;
  - (c) y dyddiad arfaethedig ar gyfer taenu (y mis);
  - (ch) y math o dail organig;
  - (d) cyfanswm y nitrogen sydd yn y tail organig; ac
  - (dd) cyfanswm y nitrogen sy'n debyg o fod ar gael o'r tail y bwriedir ei daenu i'r cnwd ei amsugno yn y tymor tyfu y caiff ei daenu.
- (3) Yn achos gwrtaiith a weithgynhyrchwyd, rhaid i'r meddiannydd gofnodi—
- (a) y maint y mae ei angen (hynny yw, y maint gorau posibl o nitrogen y mae ei angen ar y cnwd gan ddiynnu faint o nitrogen a fydd ar gael i'r cnwd ei amsugno o unrhyw dail organig a daenir); a
  - (b) y dyddiad arfaethedig ar gyfer taenu (y mis);

#### Cyfanswm y nitrogen sydd i'w daenu ar ddaliad

16. Ni waeth beth fo'r ffigur yn y cynllun, rhaid i feddiannydd sicrhau na fydd cyfanswm—
- (a) y nitrogen o wrtaith a weithgynhyrchwyd, a
  - (b) y nitrogen sydd ar gael i'r cnwd ei amsugno o dail da byw yn y tymor tyfu y caiff ei daenu ynddo,

a daenir ar y cnydau canlynol, wedi'i gyfrifo'n unol â rheoliad 17, yn fwy na'r terfynau canlynol mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeng mis (y ffigur yn yr ail golofn, wedi'i addasu'n unol â'r nodiadau i'r tabl a'i luosi â'r arwynebedd cyfan mewn hectarau o'r cnwd hwnnw a heuir ar y daliad, yw cyfanswm y nitrogen y caniateir ei daenu ar unrhyw gnwd penodol).

#### Uchafswm y Nitrogen

| <i>Y cnwd</i>   | <i>Faint o nitrogen a ganiateir<br/>(kg)<sup>(a)</sup></i> | <i>Cynnyrch safonol(tunnell/ha)</i> |
|---|--|-------------------------------------|
| Gwenith a heuir yn yr hydref<br>neu'n gynnar yn y gaeaf | 220 <sup>(b)(c)(ch)</sup>                                  | 8.0                                 |
| Gwenith a heuir yn y gwanwyn                            | 180 <sup>(c)(ch)</sup>                                     | 7.0                                 |
| Haidd y gaeaf   | 180 <sup>(b)(c)</sup>                                      | 6.5                                 |
| Haidd y gwanwyn   | 150 <sup>(c)</sup>   | 5.5                                 |
| Rêp had olew y gaeaf                                    | 250 <sup>(d)</sup>   | 3.5                                 |
| Betys siwgr   | 120  | dd/g                                |
| Tatws   | 270  | dd/g                                |
| Indrawn porthi  | 150  | dd/g                                |
| Ffa maes  | 0  | dd/g                                |
| Pys   | 0  | dd/g                                |
| Glaswellt   | 330 <sup>(dd)</sup>  | dd/g                                |

Nodiadau

- (a) Caniateir 80 kg ychwanegol yr hectar ar gyfer pob cnwd a heuir mewn caeau os yw slwtsh gwellt neu slwtsh papur wedi'i ddodi ar y cnwd presennol neu'r cnwd blaenorol.
- (b) Caniateir 20 kg ychwanegol yr hectar ar gaeau â phridd tenau (ac eithrio priddoedd tenau sy'n gorwedd ar dywodfaen).
- (c) Caniateir 20 kg ychwanegol yr hectar am bob tunnell y mae'r cynnyrch a ddisgwyliwyd yn uwch na'r cynnyrch safonol.
- (ch) Caniateir 40 kg ychwanegol yr hectar ar gyfer amrywogaethau gwenith melino.
- (d) Mae hyn yn cynnwys uchafswm o 30 kg yr hectar yn yr hydref (caniateir hyn fel esemptiad i'r cyfnod gwaharddedig ar gyfer gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd) ac uchafswm o 220 kg yr hectar yn y gwanwyn. Caniateir i'r maint ar gyfer y gwanwyn gael ei gynyddu hyd at 30 kg yr hectar am bob hanner tunnell y bydd y cynnyrch a ddisgwyliwyd yn fwy na'r cynnyrch safonol.
- (dd) Caniateir 40 kg ychwanegol yr hectar ar gyfer glaswellt a dorri'r o leiaf deirgwaith y flwyddyn. O 1 Ionawr 2012 bydd maint y nitrogen a ganiateir yn gostwng i 300 kg yr hectar.

### Cyfrifo faint o nitrogen sydd ar gael i'r cnwd ei amsugno o dail da byw

17.—(1) At ddibenion rheoliad 16, rhaid i'r meddiannydd gadarnhau'n gyntaf gyfanswm y nitrogen yn y tail, naill drwy ddefnyddio'r tabl yn Atodlen 2 neu drwy samplu a dadansoddi'n unol â'r Atodlen honno.

(2) Pan fo cyfanswm y nitrogen yn y tail wedi'i gadarnhau, rhagdybir bod y canrannau a ganlyn yn cadarnhau faint o nitrogen yn y tail sydd ar gael i'r cnwd ei amsugno yn y tymor tyfu y caiff ei daenu ynddo.

#### Y ganran sydd ar gael

| <i>Y math o dail da byw</i> | <i>Faint o nitrogen sydd ar gael i'r cnwd ei amsugno yn y tymor tyfu y caiff ei daenu ynddo</i> |                        |
|-----------------------------|---|------------------------|
|                             | <i>Tan 1 Ionawr 2012</i>  | <i>O 1 Ionawr 2012</i> |
| Slyri gwartheg              | 20%   | 35%                    |
| Slyri moch                  | 25%   | 45%                    |
| Tail dofednod               | 20%   | 30%                    |
| Tail da byw eraill          | 10%   | 10%                    |